

Pam mae'r cyngor wedi tynnu allan o brosiect Hybont?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gorfod gwneud y penderfyniad anodd iawn i dynnu ei gymorth ariannol yn ôl o'r prosiect hwn oherwydd y sefyllfa gyllideb heriol iawn y mae'r awdurdod yn awr yn ei hwynebu, yn yr un modd â llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a'r DU. Yn y sefyllfa ariannol anodd hon, rhaid i'r cyngor yn awr flaenoriaethu ei adnoddau ar ddarparu gwasanaethau hanfodol, felly fel rhan o hyn mae'n adolygu ei gyfraniad at amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys HyBont.

A fydd y prosiect yn parhau?

Mae prosiect HyBont yn bartneriaeth arfaethedig i ddatblygu menter arddangos hydrogen gwyrdd rhwng Marubeni Europower Limited (MEL) a'r hyn a elwir yn anffurfiol yn 'Tîm Cymru' sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC). Mae'r cyngor wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r holl sefydliadau hyn i ddatblygu'r prosiect hwn ac edrych ar fanteision posibl defnyddio hydrogen gwyrdd i ddatgarboneiddio rhan o'n fflyd casglu sbwriel.

Ar hyn o bryd, mae MEL, Llywodraeth Cymru a CCR yn edrych yn agos ar y prosiect i ddeall a ellir ei ail-lunio i barhau heb gyfraniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ar hyn o bryd, ni fydd yn cynnwys y rhwydwaith gwresogi arfaethedig gan y byddai hwnnw'n cael ei ariannu drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

A fydd y cais cynllunio ar gyfer cynllun Hybont yn dal i fynd rhagddo?

Bydd, bydd y penderfyniad ar y cais cynllunio a gyflwynwyd gan Marubeni Europower Ltd, ar sail rhinweddau unigol y cais gan swyddogion yr awdurdod cynllunio lleol, yn parhau. Ar ôl i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'n dymuno galw'r cais i mewn am benderfyniad cenedlaethol neu beidio, bydd pwyllgor cynllunio arbennig yn cael ei alw ar adeg briodol yn yr hydref.

Ni all cais cynllunio ond penderfynu a yw'r defnydd tir arfaethedig yn briodol ar gyfer y lleoliad, gan edrych ar faterion fel defnydd, dylunio, lleoli a thrafnidiaeth. Nid mater i'r cais cynllunio yw penderfynu a yw'r gweithrediad arfaethedig e.e. yn ddiogel – a fyddai'n cael ei benderfynu drwy gais am drwydded Rheoli Sylweddau Peryglus.

Hefyd, nid yw'r cais cynllunio hwn yn cynnwys unrhyw fanylion ar gyfer y rhwydwaith gwresogi arfaethedig gan y byddai hynny'n destun cais cynllunio ar wahân. Fodd bynnag, gan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi tynnu cymorth ariannol yn ôl o'r prosiect, ar hyn o bryd mae'n annhebygol y bydd hyn yn mynd rhagddo.

Beth mae 'gall Llywodraeth Cymru alw'r cais cynllunio i mewn' yn ei olygu?

Mae gan Lywodraeth Cymru yr hawl i alw i mewn unrhyw gais cynllunio y mae'n teimlo sy'n gofyn am benderfyniad cenedlaethol. Yn unol â hyn, mae wedi cadw'r hawl i alw cais cynllunio Hybont i mewn.

Mae hyn yn golygu y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn anfon adroddiad y swyddogion cynllunio ar y prosiect a'r argymhelliad arfaethedig (h.y. cymeradwyo neu wrthod y cais) at Lywodraeth Cymru. Ar ôl iddynt adolygu'r adroddiad, byddant yn penderfynu a ydynt yn dymuno penderfynu ar y cais drwy ystyried holl sylwadau ac argymhellion y swyddog cynllunio, neu a fydd y cais yn cael ei anfon yn ôl i'r cyngor i benderfynu arno fel yr awdurdod cynllunio lleol. Rhagwelir y bydd adroddiad y swyddogion yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru ddechrau mis Hydref, ac y byddwn yn aros i glywed gan Lywodraeth Cymru beth fydd y cam nesaf.

Pa sicrwydd swyddogol a geisir ynghylch diogelwch y prosiect?

Mae'n ofynnol i bob cynnig sy'n ymwneud â phrosesau diwydiannol o'r natur hon gyflwyno trwydded Rheoli Sylweddau Peryglus – ni allant weithredu heb hyn. Er mai mater i'r cyngor fel awdurdod cynllunio lleol yw rhoi trwydded drwy'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, rhaid iddynt hefyd ymgynghori â gweithredwyr statudol fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dim ond os ydynt o'r farn bod y cynnig yn ddiogel ac yn cydymffurfio y caniateir cais am drwydded. Mae Marubeni

Europower Ltd yn bwriadu cyflwyno'r cais hwn am drwydded i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddarach yr hydref hwn.

Pam mai cais am brosiect 'arddangos' yw hwn?

Er bod y prosiect wedi cael ei ystyried fel prosiect arddangos, nid yw'n fwriad sefydlu sut mae hydrogen yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio electrolysis - nid technoleg newydd yw hon, ac mae'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd ar draws 16 lleoliad arall yn y DU yn ogystal â chael ei defnyddio'n eang ledled Ewrop a'r byd.

Mae enghreifftiau sy'n bodoli eisoes o sut mae hydrogen yn cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio yn cynnwys Cyngor Dinas Aberdeen a'u fflyd bysiau, Wright Bus yng Ngogledd Iwerddon a HydroFLEX yn Birmingham, sy'n bartneriaeth arloesol rhwng Prifysgol Birmingham a Porterbrook. Gyda chymorth grant o £750,000 gan Lywodraeth y DU, mae hyn yn ceisio datblygu cymhwysiad pŵer hydrogen y gellir ei ôl-osod mewn trenau disel presennol i helpu i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd.

Gyda phrosiect Hybont, yr elfen arddangos yw'r feddalwedd y bwriedir ei defnyddio. Bydd yn asesu'r galw am hydrogen, yn ei gyfateb i adegau pan fydd yn rhatach i'w gynhyrchu, ac yn lleihau costau cynhyrchu a lleihau gwastraff a gwneud y broses yn fwy effeithlon. Nid cynhyrchu neu ddefnyddio hydrogen sy'n cael ei ariannu i'w arddangos drwy'r Prosiect Hybont arfaethedig.

Beth mae hydrogen gwyrdd yn ei olygu?

Mae hyn yn golygu bod hydrogen yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy, fel ffermydd gwynt neu solar. Gan fod y rhain yn ffynonellau ynni cwbl gynaliadwy, maent yn cynhyrchu 'hydrogen gwyrdd'.

Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth am brosiect Hybont?

Mae gwybodaeth fanylach ar gael am y prosiect hwn ar www.hybont.co.uk.